## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
## RHONDDA CYNON TAF

### GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Rhif ffôn (01443) 424098 – J. Nicholls

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Trwyddedu**, yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach**
**Brynhawn Mawrth, 10 Hydref 2017 am 5pm**

**ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN TRWYDDEDU, TŶ ELÁI, DWYRAIN DINAS ISAF, TREWILIAM, CF40 1NY, O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. DYLAI UNRHYW UN SY'N DYMUNO ANNERCH Y PWYLLGOR DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR 01443 424102.**

### AGENDA

#### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad.

(**Noder:**
**1.** Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
**2.** Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.)

#### 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**Tudalennau**

**COFNODION**

**3.** Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 5 Medi 2017. **1-4**

**ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD**

**4.** Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 14 Awst-24 Medi 2017. **5 - 16**

**Tyllu'r Croen a Thatŵo**
**Trwydded Casglwyr Metal Sgrap Teithiol**
**Trwydded Safle Metal Sgrap**

**5. Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:-**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

**ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG**

**6.**
i. Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru **17-44**
ii. Ystyried y ceisadau i'w Cymeradwo O Dan ddarpareiaethau deddf Delwyr Metel Scrap 2013 **45-48**

**7.** Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod 26 Awst-29 Medi 2017. **49-51**

**8.** Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 14 Awst-24 Medi 2017. **53-79**

(i) Trwyddedau gyrru ar y cyd – Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat
(ii) Trwyddedau Cerbyd Hacni
(iii) Trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat
(iv) Trwyddedau Gweithredwyr Hurio Preifat

**9. Materion brys**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Aelodau o'r Pwyllgor:-**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
(Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A.S. Fox a D. Williams yn ôl eu trefn)

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S.A. Bradwick, A.Cox, M.Diamond,
L. Jones, W. Lewis, S. Morgans, S. Powderhill, E. Webster, a T. Williams

Cynghorydd Bwrdeistref Sirol, R. Lewis (Dirprwy Aelod o Gabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ar faterion Ffyniant a Lles) – er gwybodaeth.

**3 Hydref 2017**